



Cyfrifon banc sylfaenol heb ffi

- Sut maen nhw'n gweithio
- Pethau i'w hystyried
- Pwy sy'n eu cynnig

Gwneud eich arian a'ch dewisiadau pensiwn yn gliriach

Beth bynnag eich amgylchiadau, mae HelpwrArian ar eich ochr chi. Ar-lein a thros y ffôn, rydym yn cynnig arweiniad clir sy'n gyflym i'w ddarganfod, yn hawdd ei ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy, os oes angen rhagor o gefnogaeth arnoch.

Gallwn ni eich helpu i:

- delio â dyled
- deall eich opsiynau pensiwn
- lleihau eich gwariant a chronni cynilion
- llywio digwyddiadau bywyd megis colli swydd, torperthynas, ymddeol neu brofedigaeth
- cyllidebu ar gyfer biliau neu bryniannau mawr
- dysgu am forgeisi a rhentu
- cael gwybod am fudd-daliadau a hawliadau ychwanegol.

Chwiliwch am HelpwrArian: moneyhelper.org.uk/cy

Arweiniad diduedd am ddim

ar-lein | dros y ffôn

Gan y



**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**



Yma i'ch helpu chi

Mae'r canllaw hwn i chi os ydych am ddysgu rhagor am gyfrifon banc sylfaenol heb ffi.

Cynnwys

Pwyntiau allweddol ynghylch cyfrifon banc sylfaenol heb ffi	2	Pan gaiff eich cais i gael cyfrif banc sylfaenol heb ffi ei wrthod	8
A oes modd i mi agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi?	3	Uwchraddio i gyfrif cyfredol gwasanaeth llawn	9
Sut y mae agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi	4	Deall y jargon	10
Defnyddio eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi	5	Cysylltiadau defnyddiol	11
Sut y mae gwasanaethau cyfrif banc sylfaenol heb ffi yn gweithio	6		

Pwyntiau allweddol ynghylch cyfrifon banc sylfaenol heb ffi

Mae cyfrifon banc sylfaenol heb ffi i bobl nad ydynt yn gymwys i gael cyfrif cyfredol safonol.

Gallai hyn fod oherwydd nad ydych chi wedi adeiladu hanes credyd neu efallai bod gennych chi hanes credyd gwael oherwydd problemau arian a'ch bod am ddefnyddio cyfrif banc sylfaenol heb ffi hyd y byddwch chi'n gymwys ar gyfer cyfrif cyfredol safonol eto.

Gall agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi helpu eich cymhwystedd ar gyfer cyfrif banc gwasanaeth llawn a gwella eich sgôr credyd.

Nid oes taliadau ar gyfer rhedeg cyfrif banc sylfaenol heb ffi ac ni fydd rhaid i chi dalu ffioedd am Ddebydau Uniongyrchol nac archebion sefydlog sy'n methu.

Ond gallai'r bobl mae gennych chi arian yn ddyledus iddynt godi tâl arnoch am daliadau a fethir.

Ni fydd gennych fynediad at orddrafft.

Codir tâl arnoch chi am brynu pethau mewn arian tramor neu am ddefnyddio'ch cyfrif wrth deithio dramor.

Fel pob cyfrif banc, gallwch wneud y canlynol:

- trefnu bod eich cyflog, eich budd-daliadau, ac unrhyw incwm arall yn cael eu talu i'ch cyfrif
- talu arian a sieciau i mewn am ddim (os nad ydynt mewn arian tramor)
- codi arian dros y cownter neu o beiriant arian parod
- talu biliau rheolaidd trwy Ddebyd Uniongyrchol neu archeb sefydlog
- gwirio balansau cyfrif dros y cownter, wrth beiriant arian parod, ar-lein neu ar eich ffôn symudol
- defnyddio cerdyn debyd i dalu am bethau mewn siopau ac ar-lein.



Gweler ein canllaw ar-lein i gyfrifon banc sylfaenol heb ffi yn:
moneyhelper.org.uk/cyfrifau-banc-sym-lheb-ffi

➔ A oes modd i mi agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi?

Mae cyfrifon banc sylfaenol heb ffi ar gael i rai pobl yn unig. Gall banc neu gymdeithas adeiladu sy'n darparu cyfrifon banc sylfaenol heb ffi roi gwybod i chi a allwch chi agor un.

Dylech chi fod yn gymwys i agor cyfrif os:

- nad ydych yn gymwys i gael cyfrif cyfredol rheolaidd oherwydd eich bod mewn trafferthion ariannol neu fod gennych sgôr credyd gwael

Os ydych chi dan 18 oed

Mae angen i chi fod o leiaf 16 oed i agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi, ond yr isafswm oedran ar gyfer rhai cyfrifon yw 18. Os ydych o dan 18 oed, gwnewch yn siŵr eich bod hefyd yn cymharu cyfrifon banc heb ffi â chyfrifon cyfredol eraill i bobl ifanc.

Cyfrifon ar y cyd

Gallwch agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi ar y cyd os yw'r ddau ohonoch yn gymwys i agor un.

Os cawsoch eich dyfarnu yn fethdalwr

Efallai y gallech chi agor gyfrif banc sylfaenol heb ffi os ydych chi'n fethdalwr nas rhyddhawyd a'ch bod chi'n gymwys i agor un.

Os oes gennych euogfarn

Efallai y cewch eich gwrthod ar gyfer cyfrif os cafwyd chi yn euog o dwyll neu wyngalchu arian.

Gweler *Deall y jargon* ar dudalen 10.



Sut y mae agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi

Yn aml bydd angen i chi wneud cais am un o gyfrifon eraill y banc yn gyntaf, megis eu cyfrif cyfredol safonol. Fel arfer gallwch wneud hyn ar-lein, dros y ffôn neu mewn cangen.

Os nad ydych yn gymwys, byddwch yn cael gwybod a allwch gael cyfrif banc sylfaenol yn lle hynny.

Fel arfer gallwch wneud cais am gyfrif sylfaenol heb ffi:

- yn bersonol
- drwy'r post
- dros y ffôn
- ar-lein.

Rhaid i chi ddarparu prawf swyddogol o hunaniaeth (ID) cyn y gallwch agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi. Efallai y bydd angen i chi gadarnhau'ch cyfeiriad hefyd.

Gallai prawf swyddogol o'ch ID gynnwys:

- pasbort
- trwydded yrru.

Defnyddio llythyrau swyddogol i brofi'ch ID a'ch cyfeiriad

Os nad oes gennych basbort neu drwydded gyrru, efallai y bydd eich banc neu gymdeithas adeiladu yn derbyn llythyrau swyddogol gan DWP, CThEM, Canolfan Byd Gwaith neu'ch cyngor lleol yn cadarnhau'ch hawl i fudd-daliadau, gan gynnwys Credyd Cynhwysol. Dylai'r llythyrau hyn gynnwys prawf o'ch cyfeiriad hefyd.

Gellid derbyn llythyr yn cadarnhau pwy ydych chi a lle rydych yn byw gan eich cyflogwr, coleg neu ddarparwr hyfforddiant hefyd gan eich banc neu gymdeithas adeiladu.

Gallai ffurfiau derbyniol eraill o ID a phrawf o gyfeiriad gynnwys llythyr gan berson mewn awdurdod megis:

- landlord cymdeithasol
- rheolwr cartref gofal
- warden llety gwarchod, hostel neu loches
- swyddog o'r lluoedd arfog
- gweinidog yr Efengyl
- meddyg teulu.

Efallai y bydd dogfennau eraill gennych i brofi eich ID a'ch cyfeiriad os ydych chi'n:

- fyfyrwr rhyngwladol
- gweithiwr mewnfudol
- ffoadur
- ceisiwr lloches
- carcharor
- ar brawf.

Pwynt allweddol

Ewch â phob dogfen sydd gennych i'w dangos i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu fel y gallant benderfynu beth fyddant fwyaf tebygol o'i dderbyn. Byddwch yn ymwybodol bod angen i rai dogfennau fod wedi'u dyddio o fewn terfynau amser penodol, megis tri, chwech neu 12 mis.

Defnyddio eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi

Un o'r rhesymau pwysicaf dros ddefnyddio eich cyfrif yw ar gyfer gwneud a derbyn taliadau wrth i chi reoli eich arian o ddydd i ddydd.

Bydd eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi yn caniatáu i chi:

- dalu arian i'ch cyfrif neu godi arian dros y cownter mewn canghennau.
- codi arian wrth gownteri® Swyddfa Bost
- defnyddio peiriannau arian parod o fewn y rhwydwaith LINK
- sefydlu Debydau Uniongyrchol neu archebion sefydlog o'ch cyfrif
- gwneud taliadau electronig eraill, megis taliadau cyflymach
- defnyddio cerdyn tâl yn y siopau ac ar-lein.
- gosod Apple Pay, Google Pay neu Samsung Pay.

Pwyntiau allweddol

Byddwch yn cael rhif cyfrif a chod didoli i nodi mai chi biau'r cyfrif.

Sicrhewch eich bod chi'n rhoi'r wybodaeth gywir i'r banc, cymdeithas adeiladu neu i unigolyn sydd arno arian i chi.

Efallai na fydd yn atebol os byddwch chi'n rhoi'r manylion anghywir ac yr aiff yr arian i'r cyfrif anghywir.

Cadw golwg ar eich arian

Gallwch ddewis rheoli eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi dros y ffôn, mewn canghennau neu ar-lein. Gall hyn eich helpu i fagu'r arfer pwysig o wirio balans eich cyfrif yn rheolaidd. Gweler *Deall y jargon* ar dudalen 10.

Bydd eich banc neu gymdeithas adeiladu yn cyhoeddi cyfriflen print neu ar-lein rheolaidd yn dangos faint o arian sydd wedi'i dalu i mewn a beth sydd wedi mynd allan o'ch cyfrif.

Gallwch wirio faint o arian sydd gennych a chael datganiad bach o beiriant arian yn dangos y trafodion mwyaf diweddar.

Gallwch hefyd gael hysbysiadau testun i'ch ffôn neu lawrlwytho apiau symudol i wirio eich balans unrhyw bryd.

Pwynt allweddol

Os ydych yn cael trafferth i gofio neu ddefnyddio 'Chip a PIN', gallwch holi'ch banc neu gymdeithas adeiladu ynghylch defnyddio 'Chip a llofnod' neu stamp rwber yn lle. Gweler *Deall y jargon* ar dudalen 10.

Mae rhagor o wybodaeth am redeg eich cyfrif banc yn: moneyhelper.org.uk/rhedeg-eich-cyfrif-banc

Sut y mae gwasanaethau cyfrif banc sylfaenol heb ffi yn gweithio

Mae cyfrifon banc sylfaenol heb ffi yn cynnig sawl gwasanaeth bancio ond efallai na chewch yr holl wasanaethau sydd gan gyfrifon banc eraill.

Debydau Uniongyrchol ac archebion sefydlog

Os byddwch yn talu eich biliau trwy Ddebyd Uniongyrchol neu archeb sefydlog ac os nad oes gennych ddigon o arian yn eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi, ni fydd eich banc neu eich cymdeithas adeiladu yn gwneud y taliad. Byddant yn rhoi gwybod i chi os bydd hyn yn digwydd.

Er na fydd eich banc neu gymdeithas adeiladu yn codi tâl arnoch chi, rydych chi'n parhau'n gyfrifol am dalu'r bobl yr ydych chi'n mewn dyled iddynt (eich credydwyd). Efallai y byddant yn codi tâl arnoch chi am daliadau coll.

Efallai y bydd eich banc neu gymdeithas adeiladu yn canslo eich Debyd Uniongyrchol neu orchymyn sefydlog os nad oes gennych ddigon o arian i fodloni'r taliadau yn rheolaidd.

Dysgwch ragor am Ddebydau Uniongyrchol ac archebion sefydlog yn: moneyhelper.org.uk/debydau-uniongyrchol-a-taliadau-rheolaidd

Gorddrafftiau

Ni fyddwch chi'n gallu cael gorddrafft wedi'i drefnu gyda'ch cyfrif banc sylfaenol heb ffi.

Os oes gan eich cyfrif glustogfa, byddwch yn gallu tynnu arian o beiriant arian parod hyd at yr uchafswm hwnnw (fel arfer £10) hyd yn oed os yw eich arian parod wedi dod i ben.

Gweler *Deall y jargon* ar dudalen 10.

Ni fydd eich banc na'ch chymdeithas adeiladu yn codi tâl arnoch am fynd i orddrafft hyd at derfyn y trefniant.

Ond mae'n rhaid i chi dalu arian i'ch cyfrif fel y bo mewn credyd unwaith eto cyn gynted ag y bo modd.

Ffioedd a thaliadau

Ni fydd unrhyw ffioedd neu daliadau yn berthnasol wrth ddefnyddio eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi pan fydd:

- eich pryniannau neu drafodion yn cael eu gwneud yn y DU
- taliadau rheolaidd yn cael eu gwrthod oherwydd nad oes digon o arian gennych yn eich cyfrif.

Bydd ffioedd a thaliadau'n berthnasol os ydych chi'n:

- codi arian o beiriannau arian parod sy'n codi ffi yn y DU neu dramor
- gwneud taliadau ar-lein mewn arian tramor, hyd yn oed os yw hyn yn y DU
- gwneud taliadau â'ch cerdyn dramor.

Pwy sy'n cynnig cyfrifon banc sylfaenol heb ffi

Gall unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu gynnig cyfrif banc sylfaenol heb ffi, ond

rhaid i'r rhai mwyaf ar y stryd fawr gynnig un i chi os nad oes gennych chi gyfrif banc a/ neu nad ydych chi'n gymwys i agor neu ddefnyddio cyfrif cyfredol safonol. Sef:

Banc neu gymdeithas adeiladu	Enw'r cyfrif
Bank of Ireland UK	Cyfrif Arian Sylfaenol
Bank of Scotland	Cyfrif Sylfaenol
Barclays	Cyfrif Cyfredol Sylfaenol
Co-operative Bank	Cashminder
Halifax	Cyfrif Sylfaenol
HSBC	Cyfrif Banc Sylfaenol
Lloyds Bank	Cyfrif Sylfaenol
Metro Bank	Cyfrif Arian Parod
Nationwide	Cyfrif Sylfaenol
NatWest	Cyfrif Sylfaenol
Royal Bank of Scotland	Cyfrif Sylfaenol
Santander	Cyfrif Cyfredol Sylfaenol
TSB	Cyfrif Arian Parod
Ulster Bank	Cyfrif Sylfaenol
Virgin Money	Cyfrif M

Defnyddiwch ein hofferyn i gymharu ffioedd a chostau cyfrifon banc; gallwch hidlo'ch chwiliad i weld cyfrifon heb ffi yn unig: moneyhelper.org.uk/cymharu-ffioedd-a-chostau-banc

Pan gaiff eich cais i gael cyfrif banc sylfaenol heb ffi ei wrthod

Ni all pawb agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi. Bydd eich banc neu eich cymdeithas adeiladu am wirio eich bod chi'n gymwys cyn cymeradwyo eich cais.

Mae'n bosibl y bydd yn gwrthod agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi newydd os:

- gallech gael cyfrif banc arall, er enghraifft cyfrif cyfredol safonol
- ni allwch ddarparu prawf o'ch hunaniaeth neu gyfeiriad
- rydych yn gwrthod gwiriad credyd (er nad oes rhaid i chi basio un)
- maen nhw'n meddwl y byddwch chi'n defnyddio'r cyfrif yn anghyfreithlon neu'n dwyllodrus, neu fod gennych gofnod o dwyll
- rydych chi'n fygythiol, yn sarhaus neu'n dreisgar tuag at staff.

Gall pob banc a chymdeithas adeiladu wrthodceisiadaugan bobl sydd â hanes o dwyll.

Os caiff eich cais am gyfrif banc sylfaenol heb ffi ei wrthod, mae gennych hawl i ofyn pam.

Rhaid i'ch banc neu gymdeithas adeiladu roi'r rheswm i chi pam eu bod wedi gwrthod eich cais oni bai eu bod yn eich amau o dwyll neu wyngalchu arian.

Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad a rydych chi'n meddwl bod gennych hawl i agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi, gallwch gwyno i'ch banc neu gymdeithas adeiladu.

Dysgwch ragor am sut i ddatrys problemau arian yn: moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/money-problems-and-complaints/how-to-complain

Pryd gellid caucyfrif banc sylfaenolheb ffi

Gall eich banc neu eich cymdeithas adeiladu gau eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi os:

- maent yn penderfynu eich bod nawr yn gymwys ar gyfer cyfrif cyfredol safonol
- byddwch chi'n agor cyfrif banc arall yn y DU
- byddwch chi'n methu â bodloni amodau a thelerau'r cyfrif yn rheolaidd
- nad ydych chi'n defnyddio eich cyfrif am fwy na dwy flynedd
- rydych chi wedi defnyddio'r cyfrif yn anghyfreithlon neu'n dwyllodrus neu os bydd unrhyw bryderon y gallech ddefnyddio'r cyfrif yn y modd hwn
- byddwch yn ymddwyn yn fygythiol, yn sarhaus neu'n dreisgar tuag at staff.
- byddwch chi'n rhoi gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol.

Bydd eich banc neu eich cymdeithas adeiladu'n rhoi rhybudd ysgrifenedig o ddau fis o leiaf i chi, gan egluro pam y maent yn bwriadu cau eich cyfrif.

I glywed eich opsiynau os cewch eich gwrthod ar gyfer cyfrif, gweler ein harweiniad ar-lein i gyfrifon banc sylfaenol heb ffi yn: moneyhelper.org.uk/cy/frifau-banc-sym-lheb-ffi

Uwchraddio i gyfrif cyfredol gwasanaeth llawn

Fe allai eich banc neu gymdeithas adeiladu adolygu o bryd i'w gilydd a fyddai cyfrif cyfredol gwasanaeth llawn yn well i'ch anghenion chi.

Byddant yn edrych ar:

- a ydych yn gymwys o hyd ar gyfercyfrif banc sylfaenol heb ffi
- eich amgylchiadau ariannol
- sut i ddefnyddio'ch cyfrif.

Mae cyfrifon cyfredol gwasanaeth llawn yn gweithio yn yr un ffordd â chyfrifon banc sylfaenol heb ffi, ac eithrio y gallant gynnig mwy o nodweddion, megis llog ar eich balans, a chynhyrchion megis yswiriant neu orddrafft.

Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu hefyd llog a chostau am ddefnyddio cyfrif cyfredol gwasanaeth llawn.

Er enghraifft, os yw taliadau yn cael eu gwrthod oherwydd nad oes gennych chi ddigon o arian yn eich cyfrif neu os ydych chi'n defnyddio'r cyfleusterau gorddrafft.

Rhaid i'ch banc neu gymdeithas adeiladu roi o leiaf dau fis o rybudd ysgrifenedig i chi yn dilyn adolygiad, yn esbonio pam eu bod yn bwriadu eich symud i gyfrif cyfredol gwasanaeth llawn.

Os nad ydych yn siŵr am symud o gyfrif heb ffi i gyfrif sy'n codi ffi, siaradwch â rhywun am yr hyn y gallwch ei wneud cyn gynted â phosibl.

Gallwch hefyd ystyried newid i gyfrif banc sylfaenol heb ffi gyda banc neu gymdeithas adeiladu arall.

Dysgwch ragor am ddewis y cyfrif banc cywir yn: **moneyhelper.org.uk/dewis-y-cyfrif-banc-cywir**

Os bydd pethau'n mynd o chwith

Gall camgymeriadau ddigwydd, ond mae pethau y gallwch chi a'ch banc neu gymdeithas adeiladu eu gwneud i unioni pethau.

Os oes gennych gŵyn am y gwasanaeth a gewch, yn gyntaf cysylltwch â'ch banc neu gymdeithas adeiladu i roi cyfle iddynt ddatrys y problem.

Dylent ymchwilio i'ch cwyn ac ymateb o fewn wyth wythnos.

Os nad ydych yn fodlon ar yr ymateb a gewch, efallai y gallech gyflwyno'ch cwyn i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol i weld os gallant eich helpu.

Rhaid i'ch banc neu gymdeithas adeiladu roi manylion y gwasanaeth Ombwdsmon am ddim hwn i chi pan fydd yn eich ateb. (Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 11)

Dysgwch ragor yn: **moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/money-problems-and-complaints/how-to-complain**

Mae unrhyw arian a ddelir mewn cyfrif banc sylfaenol heb ffi wedi'i ddiogelu o dan gynllun gwarant adnau FSCS, sy'n diogelu hyd at £85,000 y person. Mae hyn yn golygu os bydd eich banc neu gymdeithas adeiladu yn mynd i'r wal bydd gennych sicrwydd hyd at y swm hwn.

Dysgwch ragor yn: **fscs.org.uk**

Deall y jargon

Balans

Cyfanswm yr arian yn eich cyfrif.

Clustogfa

Swm bychan o gredyd y gallai banc neu gymdeithas adeiladu efallai ei roi i chi, er mwyn i chi allu codi arian o beiriant arian hyd yn oed os nad oes gennych ddigon o arian yn eich cyfrif.

Arian yn ôl

Gwasanaeth sy'n eich galluogi i gael canran o'ch gwariant yn ôl mewn archfarchnadoedd neu siopau eraill, drwy ddefnyddio eich cerdyn debyd.

Chip a PIN

Yr enw ar ddefnyddio Rhif Adnabod Personol (PIN) i awdurdodi taliad o'ch cyfrif.

Gwiriad credyd

Chwiliad o'ch cofnod benthycu, a elwir hefyd yn sgôr credyd. Mae banc, cymdeithas adeiladu neu sefydliad arall yn gwirio eich credyd cyn iddynt benderfynu a ydynt am gymeradwyo eich cais i agor cyfrif banc.

Cerdyn debyd

Cerdyn a gyhoeddir gan fanc neu gymdeithas adeiladu yr ydych yn ei ddefnyddio i godi arian neu i dalu am bethau yr ydych yn eu prynu mewn siopau neu ar-lein. Cymerir yr arian o'ch cyfrif ar unwaith fel arfer.

Debyd Uniongyrchol

Ffordd o dalu biliau o'ch cyfrif. Rydych chi'n llofnodi ffurflen sy'n caniatáu'r cwmni yr ydych yn ei dalu i gymryd yr arian yn uniongyrchol o'ch cyfrif ar ddyddiadau penodol. Rhaid i'r cwmni roi gwybod i chi ymlaen llaw cyn newid y swm y mae'n ei gymryd neu ddyddiadau'r taliadau.

Llog

Tâl am fenthycg arian, neu wobr am gynilo arian. Fel arfer, mae'n cael ei ddangos fel canran o'r swm yr ydych wedi ei fenthycg neu ei gynilo.

Gorddrafft

Cyfleuster sy'n caniatáu i chi wario mwy o arian o'ch cyfrif nag sydd gennych ynddo. Fel arfer, bydd y banc neu'r gymdeithas adeiladu yn codi llog arnoch os bydd hyn yn digwydd, ac weithiau ffioedd eraill hefyd. Ni chewch orddrafft gyda chyfrif banc sylfaenol heb ffi.

Archeb sefydlog

Ffordd o dalu biliau o'ch cyfrif. Rydych chi'n llofnodi ffurflen a anfonir atoch gan y cwmni yr ydych yn ei dalu. Mae hyn yn nodi'r swm sydd i'w dalu a'r dyddiadau talu. Wedyn, byddwch yn rhoi'r ffurflen hon i'ch banc neu i'ch cymdeithas adeiladu, sy'n talu'r symiau o'ch cyfrif i'r cwmni'n awtomatig ar y dyddiadau y cytunwyd arnynt. Rhaid i chi ddweud wrth eich banc neu gymdeithas adeiladu os bydd angen newid y swm neu'r dyddiadau.

Cyfriflen

Rhestr fanwl o'r holl daliadau i mewn ac allan o'ch cyfrif dros gyfnod o amser, er enghraifft un mis. Gofynnwch i'ch banc neu i'ch cymdeithas adeiladu pa mor aml y mae'n darparu cyfriflenni.

Methdalwr nas rhyddhawyd

Person sy'n methu talu ei ddyledion ac sydd yn parhau i fod ar y gofrestr methdaliad.

Cysylltiadau defnyddiol

HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian. Rydym yn rhoi arweiniad arian a phensiynau diduedd am ddim i bawb ledled y DU – ar-lein a thros y ffôn.

Ymwelwch â ni yn

moneyhelper.org.uk/cy

Neu cysylltwch â ni ar:

Ffôn

Arweiniad ar arian

DU: **0800 138 7777**

os ydych y tu allan i'r DU

+44 20 3553 2279

Llun – Gwe 8am i 6pm

Arweiniad ar bensiynau

DU: **0800 011 3797**

os ydych y tu allan i'r DU

+44 20 7932 5780

Llun – Gwe 9am i 5pm

Gwe-sgwrs:

moneyhelper.org.uk/moneychat

**[moneyhelper.org.uk/cy/
pensions-chat](https://moneyhelper.org.uk/cy/pensions-chat)**

WhatsApp

+44 7701 342744

(arweiniad ar arian yn unig)

Cymunedau ar-lein

Ymunwch â'n grwpiau Facebook am gymorth: **[moneyhelper.org.uk/cy/
blog/everyday-money/come-and-
join-our-online-communities](https://moneyhelper.org.uk/cy/blog/everyday-money/come-and-join-our-online-communities)**

Gwasanaeth yr Ombudsmon Ariannol (Financial Ombudsman Service)

0800 023 4567

financial-ombudsman.org.uk/cymraeg

Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau

This image shows a single sheet of white paper with horizontal blue or grey ruling lines, typical of notebook paper. The lines are evenly spaced and run across the width of the page. There is no handwriting or other markings on the paper.

[illegible]



Cynhyrchir y canllaw hwn gan HelpwrArian ac mae hefyd ar gael yn Saesneg. I weld yr ystod llawn o ganllawiau sydd ar gael, ac i ofyn am gopiâu, ewch i moneyhelper.org.uk/cy/contact-us/free-printed-guides

Cymraeg

Cysylltu â ni

Arweiniad ar arian **0800 138 7777**

Llun – Gwe 8am i 6pm

Arweiniad ar bensiynau **0800 011 3797**

Llun – Gwe 9am i 5pm

Gwasanaethau trosglwyddo testun

1800 10800 915 4622

Llun – Gwe 8am i 6pm

WhatsApp **+44 7701 342744**

Gwefan moneyhelper.org.uk/cy

Helpwr ↪Arian

Mae galwadau o'r DU am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.

Fformatau hygyrch

Os hoffech chi gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2025). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.